GRIFFITHS

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Prosiect yr A40

Bwletin y Prosiect
Rhifyn yr Haf

Diweddariad o'r Prosiect

Croeso i'n diweddariad o'r prosiect am yr haf. Mae gwaith wedi mynd yn ei flaen yn gyflym iawn dros fisoedd y gwanwyn a'r haf ar draws y prosiect, gyda chryn dipyn wedi'i gyflawni ar waith cloddio a draenio. Mae tarmac wedi'i osod hefyd mewn rhai mannau erbyn hyn, ond mae cryn dipyn o waith i'w gwblhau eto yn ystod yr hydref/gaeaf eleni. Mae cryn dipyn o waith wedi'i gwblhau yn ystod yr wythnos waith, yn enwedig i symud tua 150,000m3 o ddeunyddiau ar draws pen dwyreiniol y prosiect gan ddefnyddio hyd at ddeg o ddympers mawr a thri pheiriant cloddio mawr, ynghyd â theirw dur a rholeri i gynnal ansawdd.

Gwaith Llwyddiannus ar y Ffordd Bresennol yng Nghoed y Ffynnon

Wedi gwaith helaeth yn cynllunio a pharatoi, llwyddon ni i gwblhau'r gwaith o adeiladu ar lwybr y ffordd flaenorol, gan gynnwys gwahaniaeth sylweddol yn y lefelau rhwng yr hyn sydd bellach yn hen ran o'r A40 a rhan o'r A40 newydd yng Nghoed y Ffynnon i'r gorllewin o Landdewi Felffre. Er mwyn galluogi'r gwaith hwn i ddigwydd, caewyd yr A40 rhwng 8pm ddydd Gwener, 16eg Mehefin 2023 a 5am ddydd Llun, 19eg Mehefin 2023. Drwy gydol y cyfnod hwn, buom yn wynebu heriau ar sawl adeg. Fodd bynnag, drwy fonitro pethau fesul awr, roedd modd gwneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn gallu cwblhau'r gwaith yn unol â'r amserlen. Roeddem yn ddiolchgar i orsaf danwydd Preseli a fu'n cynnal egni ein tîm. Yn dilyn sawl shifft a gwaith tîm rhagorol, a oedd yn cynnwys y gadwyn gyflenwi, cafodd y ffordd ei hailagor yn ddiogel ac ar amser, ac mae teithwyr bellach yn cael profi rhan gyntaf yr A40 newydd, sy'n welliant aruthrol ar yr hen ran.

"Mae rhan sylweddol o ffordd sydd wedi'i adeiladu ar lwybr y ffordd flaenorol bellach wedi'i gysylltu i'r gorllewin o Landdewi Felffre diolch i gydweithio rhagorol rhwng sefydliadau amrywiol a thîm ymroddgar iawn a fu'n gweithio mewn shifftiau bob awr o'r dydd a'r nos dros gyfnod gwaith o 57 awr er mwyn cwblhau'r gwaith yn ddiogel. Er gwaethaf yr her, roedd tipyn o fwynhad a boddhad i'w cael, a dyna pam mae'r tîm yn Adeiladu Gwell Peirianneg Sifil. Hoffwn i ddiolch i'r cymunedau lleol yr oedd y gwaith hwn yn effeithio arnynt ac i drigolion Gogledd Sir Benfro am fod mor amyneddgar tra roedd yr A40 ar gau er mwyn i ni gwblhau'r gwaith heriol hwn." **Andrew Davies, Rheolwr y Prosiect**

Cafodd ffordd ymyl ger yr A40 ei chau hefyd a'i rheoli'n ofalus er mwyn caniatáu llwybr dirwystr i'r gwasanaethau brys o amgylch yr ardal oedd yn cael ei heffeithio, ac fe ddefnyddiwyd y llwybr hwn yn llwyddiannus drwy gydol y penwythnos.

Mae gennym weithlu o tua 150 o bobl ar hyn o bryd sy'n helpu i barhau â'r cynnydd ar y prosiect hwn, gan sicrhau ein bod yn bwrw'r dyddiadau ar gyfer cerrig milltir amrywiol. Bydd y gwaith yn parhau i fynd rhagddo'n gyflym dros fisoedd yr haf, gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu'n digwydd oddi ar y llwybr presennol a chryn bellter o'r A40 presennol.

Gwaith Cloddio ac Adeileddau

Rydym wedi gwneud cryn gynnydd gyda'r gwaith o adeiladu nifer o gwlferi a thanffyrdd. Rydym wedi cwblhau 5 o'r 13 adeiledd sy'n amrywio o tua 1.8m i 6.5m o ddiamedr. Bydd yr adeileddau hyn yn cael eu defnyddio at ddibenion amrywiol, gan gynnwys dibenion amaethyddol, cerddwyr ac amlddefnydd, tanffyrdd i anifeiliaid a draenio dŵr.

Mae'r cwlferi wedi'u gwneud o ddur rhychiog sy'n cyrraedd ar ffurf platiau wedi'u torri'n barod (yn debyg i gelfi 'flat-pack') ac yna maent yn cael eu bolltio at ei gilydd gyda miloedd o folltiau ar gyfer pob adeiledd er mwyn creu'r cwlfert crwn. Y fantais yma ydy bod modd cludo pob cwlfert ar un neu ddwy lori, yn ddibynnol ar y maint a'r hyd, yn hytrach na chael dyluniadau concrit yn cyrraedd ar lawer mwy o lorïau a'u gosod â chraen.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ymdrechion ar Bont Redstone, ac mae timau bellach wedi gosod trawstiau mawr 30-tunnell y bont a gludwyd o Iwerddon ar ben y ddau bentan pont. Os ydych wedi gweld y rhain, bydd o ddiddordeb i chi gael gwybod iddyn nhw gael eu codi i'w lle gan graen 250-tunnell a ddarparwyd yn lleol, gan fanteisio ar y tywydd ffafriol nôl ar ddechrau mis Mehefin i gadw at y rhaglen arfaethedig. Bydd gwaith o gwmpas y bont yn parhau nawr dros y misoedd nesaf gyda'r waliau bach yn cael eu hadeiladu y tu ôl i'r pentanau pont mawr fertigol, ynghyd â'r dec o goncrit cyfnerth fydd yn darparu'r llwybr ar gyfer cerbydau a cherddwyr/seiclwyr unwaith y bydd yr wyneb wedi'i osod. Mae'r bont yn galluogi'r A40 newydd i deithio o dan y rhan newydd o Heol Redstone fydd wedi'i chodi ar lwybr newydd gyda'r ffordd yn clymu'n ôl at yr hen A40 wedi i'r traffig gael ei symud yn gynnar y flwyddyn nesaf.

(Trawstiau'r Bont yn cael egosod)

Oriau Gwaith Presennol

Wrth i'r tywydd wella, rydym yn rhagweld y bydd ein horiau gwaith yn estyn i wneud y mwyaf o gynnydd ac effeithlonrwydd

Bydd yr oriau newydd hyn fel a ganlyn:

Dydd Llun i Ddydd Gwener
– 7:30am-7:00pm

Dydd Sadwrn a Dydd Sul
Pam sydd eisiau

Bydd yr oriau gwaith yn amrywio yn dibynnu ar alwadau'r prosiect a ffactorau eraill megis y tywydd.

Cynnydd yng Ngwahanol Rannau'r Gwaith

Ar draws yr holl brosiect, mae rhwng 15 ac 20 o gerbydau dympio cymalog wedi bod ar waith gennym ar yr un pryd, yn gweithio ochr yn ochr â pheiriannau trwm eraill i gwblhau'r gwaith o symud pridd a cherrig ar draws y cynllun. Rydym wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ardal waith fydd yn cysylltu Pont Redstone â chylchfan newydd Penblewin, yn ogystal â'r man lle bydd Pont Llanfallteg yn cael ei chysylltu â'r cylchfan newydd sbon sydd eto i'w adeiladu i'r dwyrain o bentref Llanddewi Felffre, gan wneud y gorau o dywydd sych haf 2023.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol eisoes yn y lleoliadau hyn, ac rydym yn rhagweld y bydd hynny'n parhau dros y misoedd nesaf, gan ddibynnu i raddau helaeth ar amodau'r tywydd. Byddwn yn gweithio hefyd ar ddau ben y cynllun yn y dwyrain a'r gorllewin. Yn ôl y rhaglen, bydd y cyhoedd yn gweld y cynnydd hwn yn gynnar yn 2024 drwy deithio o bosib ar ragor o rannau o'r cynllun er mwyn caniatáu i waith olynol barhau.

Wrth i'r tîm barhau â'r cynnydd yn y gwaith, gan ddefnyddio nifer helaeth o weithwyr a pheiriannau ar y prosiect, mae'n braf cael cefnogaeth barhaus i'r prosiect gan bawb y byddwn yn rhyngweithio â nhw. Rydym yn deall bod y prosiect yn llawer hwyrach na'r disgwyl, ac rydym yn gwneud ein gorau glas i sicrhau y caiff y prosiect hwn ei gwblhau cyn gynted â phosib er mwyn gadael y gwaddol hwn yma i bawb ohonoch gael ei ddefnyddio. Rydym yn dal i ymgysylltu â'r gymuned leol, gan sicrhau bod pawb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd, gweithgareddau allweddol, a'r effeithiau o ran rheoli traffig. Os oes unrhyw un yn awyddus i gysylltu â'r tîm, mae croeso i chi roi galwad i ni neu anfon neges neu e-bost.

(Ardal Llanfallteg, nad yw'n weladwy o'r A40 presennol na'r ffyrdd ymyl)

(Penblewin yn edrych i gyfeiriad Pont Redstone)

Cymuned

Rydym wedi parhau i helpu pobl yn y gymuned lle rydym yn gweithio, gan gynnwys darparu cymorth mewn digwyddiadau cymunedol yn ogystal â gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag adeiladu er mwyn helpu i wella cyfleusterau cymunedol yn yr ardal.

Mae Griffiths fel Prif Gontractwr yn cydweithio gyda'n cadwyn gyflenwi ehangach. Yn garedig iawn, gwnaeth CR Civils, sy'n isgontractwyr i Griffiths fel arbenigwyr draenio ar yr A40, gyfrannu tîm o 5 o weithwyr tir yn ogystal â chyfarpar, peiriannau a deunyddiau, i helpu yng Nghwt Cadetiaid Arberth drwy dynnu hen slabiau pafin anwastad oddi yno a gwella'r draenio o gwmpas y cwt drwy greu 25 metr o ddraeniau tanddaearol.

Bu tîm Griffiths yn cynorthwyo Canolfan Gymunedol Bloomfield hefyd drwy glirio ardal y tu ôl i'r ganolfan nad oedd yn cael ei defnyddio ryw lawer, lefelu'r ardal, a darparu cerrig i greu arwyneb y gall y plant sy'n mynychu'r cylchoedd chwarae cymunedol ei ddefnyddio.

Bydd ymdrechion pellach ar waith budd cymunedol yn canolbwyntio nawr ar bentref Llanddewi Felffre ei hun a pha welliannau pellach y gellir eu gwneud yn ogystal â'r gwaith buddiol yn gysylltiedig â thynnu statws cefnffordd a fydd yn digwydd ar ddiwedd y prosiect.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu ag ysgolion lleol a hwyluso cyfleoedd profiad gwaith. Roedd yn braf cael croesawu myfyrwyr o Ysgol y Preseli ar eu sesiynau addysgiadol deufisol ac rydym yn dymuno pob hwyl i'r myfyrwyr gyda'u gyrfaoedd ym meysydd dylunio a pheirianneg yn y dyfodol. Roedden ni'n rhan hefyd o fenter Carwsél Gyrfaoedd Gyrfa Cymru yn Ysgol Uwchradd Hwlffordd.

Roeddem yn falch iawn o gynnal digwyddiad rhwydweithio Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) ym mis Gorffennaf.

Daeth aelodau ICE o Glwb Gorllewin Cymru a Dinas Abertawe i weld y cynnydd ar y prosiect gyda'u llygaid eu hunain ac i ddysgu mwy am rai o'r heriau peirianyddol a'r gwaith arbennig sydd ar droed.

Roeddem yn falch hefyd o groesawu cynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru i ddigwyddiad addysgiadol a drefnwyd gan ein Rheolwr Fframwaith CNC i fwrw golwg dros y defnydd diweddar o Adeileddau Cladded ig o Ddur Rhychiog, gan ddarparu golwg uniongyrchol ar eu gwytnwch a'u manteision megis yr arbedion carbon sylweddol a geir o'u defnyddio yn hytrach na dewisiadau eraill mwy traddodiadol.

Cynlluniau ar gyfer Haf a Hydref 2023

Cylchfan Penblewin

Byddwn ni'n dechrau gweithio ym Mhenblewin ar ôl cyfnod gwyliau'r haf. Fel y gwelwch isod, bydd rhan sylweddol o'r cylchfan yn cael ei heffeithio gan y gwaith hwn. Rydym yn ymwybodol o'r modd y bydd gwaith yn yr ardal hon yn tarfu, ac rydym yn edrych ar hyn o bryd ar leihau'r angen am oleuadau traffig 4-ffordd drwy aildrefnu'r rhaglen waith er mwyn sicrhau y bydd cyn lleied â phosib o darfu.

Gwaith cloddio

Bydd sylfeini'r A40 yn datblygu'n gyflym, ac rydym yn rhagweld y bydd datblygiadau sylweddol rhwng Pont Redstone a Phont Llanfallteg, gan gynnwys Penblewin, ynghyd â dechrau'r gwaith adeiladu ar ddau ben y prosiect.

Seilwaith

Wedi i ni wneud cynnydd da ar y ffordd ymyl barhaol rhwng Penblewin a Henllan, ychydig i'r gorllewin o Goed y Ffynnon yn yr ardal hon, byddwn yn gobeithio agor yr ardal hon i dirfeddianwyr sydd angen mynediad dirwystr i'w caeau a'u heiddo.

Ecoleg ac Archaeoleg

Byddwn yn cwblhau'r gwaith clirio llystyfiant terfynol ym mis Medi yn unol â'n calendr ecolegol llym. Bydd y gwaith o blannu dros 200,000 o goed sy'n weddill yn dechrau yn ddiweddarach eleni. Mae'r gwaith archaeoleg yn ei gamau olaf un ac rydym yn bwriadu cynnal digwyddiad cymunedol i ddysgu am y darganfyddiadau a wnaed. Bydd rhagor o wybodaeth yng Nghylchlythyr yr Hydref.

Bydd yr holl wybodaeth a diweddariadau traffig ar gael ar wefan Traffig Cymru, **https://traffig.cymru**
Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru
www.llyw.cymru/a40-gwelliannau-llanddewi-felffre-redstone-cross neu ar wefan gymunedol Griffiths **https://community.griffiths.co.uk/cy/home** Oes hoffech gyswllt â'r tîm, anfonwch neges e-bost ar **a40lvrcenquiries@alungriffiths.co.uk** neu ffoniwch ein tîm cyswllt cyhoeddus ar **0330 107 1504**